

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Bupa Dental Care/Bwrdd Iechyd
Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad arolygu: 15 Ionawr 2019

Dyddiad cyhoeddi: 24 Ebrill 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	17
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	27
4.	Beth nesaf?.....	30
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	32
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	33
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	34
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	36

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bupa Dental Care yn Kensington Court Clinic, 197 Heol Cas-gwent, Casnewydd, NP19 8GH, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 8 Gorffennaf 15.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC i ba raddau yr oedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod Buca Dental Care, Casnewydd yn gweithio'n galed i gynnig profiad o ansawdd uchel i'w gleifion.

At ei gilydd, roedd yr amgylchedd yn lân ac yn daclus, ac roedd rhywfaint o waith adnewyddu wedi'i gwblhau er mwyn diweddau rhai o'r deintyddfeydd. Nodwyd gennym rai meysydd y mae angen i'r practis eu hadolygu. Nid oedd llawr yn y deintyddfeydd wedi'i selio'n llwyr; mae angen gwneud rhywfaint o waith ailaddurno o ganlyniad i farciau treulio, ac rydym wedi gofyn i'r darparwr ystyried gwneud yr ystafell aros a'r toiledau'n hygyrch yn barhaol heb fod yn rhaid i gleifion ofyn am rampiau.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom drwy holiaduron AGIC fod y rhan fwyaf o'r cleifion o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir yn y practis yn ardderchog neu'n dda iawn.

Roedd cofnodion y cleifion a welsom yn fanwl ac yn cynnwys gwybodaeth lawn am ofal a thriniaeth y claf. Roedd y profion pelydr-X o ansawdd da ac yn cael eu harchwilio'n rheolaidd er mwyn cynnal y safon hon.

Roedd gan y practis gyfres o bolisïau a gweithdrefnau a oedd yn galluogi'r staff i gael gwybodaeth i'w helpu i gyflawni eu gwaith o ddydd i ddydd.

Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn cydweithio'n dda. Gwelsom fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn nifer o feysydd, a oedd yn sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf i'w cynorthwyo wrth eu gwaith.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn ymddangos yn hapus yn eu rolau ac roedd ganddynt ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel
- Roedd trefniadau priodol ar waith i ddefnyddio cyfarpar y practis yn ddiogel
- Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn ardderchog neu'n dda iawn
- Roedd gwastraff yn cael ei storio'n briodol a dan glo er mwyn atal mynediad anawdurdodedig
- Roedd y cleifion yn cael gwybodaeth berthnasol i'w galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth, ac roeddent yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir
- Roedd system dda ar waith ar gyfer llywodraethu ac archwilio ansawdd y gwasanaeth a ddarperir
- Roedd y staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac roedd cyfleoedd hyfforddiant da ar gael iddynt
- Roedd darpariaethau yn y practis ac ar y wefan i gleifion roi adborth.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen adolygu'r wybodaeth i gleifion, yn enwedig er mwyn sicrhau bod yr iaith yn glir. Nid yw'r term Cod Ymddygiad yn hawdd ei ddeall fel proses gwyno
- Mae angen gwneud rhai gwelliannau i'r amgylchedd. Mae angen i'r lloeriau yn y deintyddfeydd gael eu selio'n llwyr; mae angen gwneud rhywfaint o waith ailaddurno i orchuddio marciau treulio, ac mae angen ateb parhaol o ran hygyrchedd er mwyn galluogi cleifion i gyrraedd yr ystafell aros a'r toiledau heb fod angen iddynt ofyn am ramp.
- Yn unol â'r canllawiau arfer gorau ar ddihalogi, mae angen ystyried prynu cyfarpar ychwanegol er mwyn gwella/ategu'r broses glanhau â llaw
- Gweler Atodiad C i weld y cynllun gwella llawn

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle'r oedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Bupa Dental Care yn darparu gwasanaethau i gleifion yng Nghasnewydd a'r cyffiniau. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys pedwar deintydd, un hylenydd, pedair nyrs ddeintyddol, tri derbynnydd ac un rheolwr practis.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, gwelsom fod Bupa Dental Care yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'r cleifion. Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn ardderchog neu'n dda iawn.

Roedd cyfleusterau'r cleifion ar un lefel yn y practis. Fodd bynnag, roedd angen dringo nifer fach o risiau er mwyn cyrraedd yr ystafell aros a'r toiledau i gleifion. Er bod ramp ar gael i'r rhai y mae ei angen arnynt, rydym wedi gofyn i'r practis ystyried ateb parhaol er mwyn galluogi cleifion i gyrraedd yr ardal aros a'r toiledau heb orfod gofyn am y ramp.

Roedd gwybodaeth berthnasol i gleifion i'w gweld yn y dderbynfa/ardal aros. Fodd bynnag, gwelsom nad yw'r derminoleg a ddefnyddir gan Bupa i ddisgrifio'r broses gwyno yn hawdd ei deall, ac mae angen ei hadolygu.

Mae gan y practis nifer o systemau ar waith er mwyn i gleifion roi adborth a gwneud sylwadau, ac mae'r rhain yn galluogi'r practis i nodi themâu gyda'r nod o wella gwasanaethau.

Yn ystod ein harolygiad, dosbarthwyd holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn am y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Cyflwynwyd cyfanswm o 26 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gyflwynwyd wedi'u cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod yn defnyddio gwasanaethau'r practis ers dros ddwy flynedd.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan; dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'. Ymhlith y sylwadau a wnaed gan y cleifion yn yr holiaduron roedd y canlynol:

"Roeddwn i'n teimlo'n nerfus iawn am fynd i weld y deintydd, a doeddwn i ddim wedi bod ers dros 10 mlynedd. Ers i mi ddechrau dod i weld y deintydd, dydw i ddim yn casáu dod rhagor"

"Bob amser yn cael gwasanaeth gwych, felly dim byd i'w wella"

"Mae staff y dderbynfa yn garedig ac nid ydynt yn beirniadu"

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu; ymysg y sylwadau a wnaed gan y cleifion roedd y canlynol:

"Mwy o staff yn y dderbynfa – mae bob amser yn ymddangos fel petai prinder staff, ac mae'r ffonau wastad yn brysur"

"Mae'r ardal y tu ôl i'r dderbynfa yn edrych yn anniben."

"Dweud wrth gleifion ar y safle pam y mae oedi mewn perthynas ag amser eu hapwyntiad â'r deintydd. Rydych yn cyrraedd yn gynnar ond efallai na fyddwch yn gweld y deintydd am 10 munud, neu ar ôl amser yr apwyntiad"

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Yn ddieithriad, dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Roedd gwybodaeth am hybu iechyd ar gael yn y dderbynfa/ardal aros, gan gynnwys taflenni gwybodaeth benodol am y practis, ac amrywiol bamffledi hybu iechyd a hyrwyddo triniaeth gosmetig.

Nid oedd unrhyw arwyddion i'w gweld y tu allan a oedd yn dangos enw'r practis, enwau'r deintyddion na'r oriau agor yn glir. Roedd y rhain i'w gweld wrth y brif

fynedfa i'r practis. Roedd poster ar y prif ddrws a oedd yn dangos y rhif ffôn y tu allan i oriau/brys.

Roedd arwydd 'Dim Smygu' i'w weld ger y brif fynedfa a oedd yn cadarnhau bod pwyslais yn cael ei roi ar gydymffurfio â deddfwriaeth mangreoedd di-fwg¹.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r wybodaeth mewn perthynas ag oriau agor y practis ac enwau'r deintyddion er mwyn sicrhau eu bod yn glir i'r cleifion.

Gofal ag urddas

Roedd y tîm o staff yn ymddangos yn gyfeillgar a fe'u gwelsom yn siarad â'r cleifion mewn ffordd barchus a phroffesiynol. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin gydag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis.

Roedd y staff yn gallu cael sgysiau preifat â'r cleifion yn y deintyddfeydd, ac roedd swyddfa breifat ar gael hefyd, os oedd angen.

Roedd naw egwyddor² y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn yr ardal aros, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Gwelsom fod systemau digonol ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y wybodaeth am gleifion. Roedd copïau wrth gefn o'r cofnodion electronig yn cael eu gwneud bob dydd ac roedd y ffeiliau papur yn cael eu cadw'n ddiogel mewn cabinet dan glo.

¹Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015 - Cafodd deddfwriaeth i wahardd smygu mewn manau cyhoeddus caeedig ei chyflwyno yn 2007 er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag mwg ail-law.

²Mae naw egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn nodi'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg sy'n berthnasol i weithwyr deintyddol proffesiynol yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn golygu bod yr egwyddorion yn gymwys i bob aelod o'r tîm deintyddol ac yn nodi'r hyn y gall cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

Gwelsom fod y drysau i'r deintyddfeydd (lle cafodd y cleifion ofal yn ystod yr arolygiad) yn cael eu cadw ar gau er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas.

Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur, namyn un, wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys, a dywedodd y rhan fwyaf ohonynt hefyd eu bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael.

Dywedodd y cleifion hefyd fod cost unrhyw driniaeth (lle y bo'n berthnasol) bob amser yn cael ei hegluro wrthynt cyn iddynt gael y driniaeth. Roedd rhestr brisiau ar gyfer triniaethau'r GIG a thriniaethau preifat i'w gweld yn y dderbynfa/ardal aros.

Roedd taflen wybodaeth i gleifion hefyd ar gael yn y practis. Wrth fwrw golwg dros y daflen hon, gwelsom fod rhywfaint o wybodaeth sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 ar goll. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym fod taflenni newydd wedi cael eu harchebu yn lle'r hen rai.

Roedd y datganiad o ddiben³ a ddarparwyd ar ddiwrnod yr ymweliad yn cynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, ac mae ar gael i'r cleifion ei weld ar gais. Rydym wedi gofyn i'r practis sicrhau bod manylion y rheolwr cofrestredig yn cael eu diweddarau yn y ddogfen hon.

Gwelsom fod polisiau a gweithdrefnau ar waith sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer cydsyniad.

³Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i bob darparwr gwasanaeth lunio Datganiad o Ddiben a dylai gynnwys manylion penodol am y gwasanaeth, pa driniaethau a roddir, i bwy (oedran), gan bwy ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddir. Am ragor wybodaeth ewch i hiw.org.uk

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen diweddarau manylion y rheolwr cofrestredig yn y datganiad o ddiben, ac anfon copi i AGIC

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod bob amser neu weithiau'n gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith.

Dywedodd y staff wrthym y byddent yn bodloni gofynion unrhyw glaf â nam ar ei glyw a/neu a oedd yn dymuno sgwrsio mewn iaith arall heblaw Saesneg, a'u bod wedi gwneud hynny. Roedd y practis yn cael cymorth gan sefydliadau i fodloni'r ceisiadau hyn. Yn dilyn yr ymweliad, cadarnhaodd y staff fod poster yn cael ei arddangos i gynorthwyo'r cleifion ac i egluro wrthynt y gwasanaethau sydd ar gael i'w helpu i ddiwallu eu hanghenion cyfathrebu.

Roedd rhywfaint o wybodaeth yn cael ei harddangos yn Gymraeg a Saesneg. Hefyd, pe bai cleifion yn gofyn am wybodaeth ysgrifenedig yn Gymraeg neu iaith arall, dywedodd y staff wrthym y gallent drefnu hyn drwy ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu.

Gwelsom dystiolaeth yng nghofnodion y cleifion o gynlluniau triniaethau ysgrifenedig wedi'u ffeilio. Mae hyn yn sicrhau bod y cleifion yn cael gwybodaeth i'w helpu i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth.

Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio darparu gofal deintyddol mewn ffordd amserol a gwelsom hyn yn ystod ein harolygiad. Disgrifiodd y staff broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi mewn perthynas ag amser eu hapwyntiad. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei bod yn hawdd iawn neu'n eithaf hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Dywedodd ychydig dros draean o'r cleifion a gwblhaodd holiadur na fyddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Roedd y rhif ffôn y tu allan i oriau i'w gweld ar boster wrth ddrws y brif fynedfa. Dywedodd y staff fod neges y peiriant ateb hefyd yn cynnwys y wybodaeth hon.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Cawsom olwg ar sampl o gofnodion y cleifion a gwelsom eu bod yn cynnwys cofnod o'r opsiynau a'r cynlluniau triniaeth, a bod y practis yn cael cydsyniad gan bob claf i driniaeth.

Fel rhan o gofnodion y cleifion, roedd hanes meddygol pob claf yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau yn ystod pob ymweliad. Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur, namyn un, fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth.

Hawliau pobl

Roedd y practis wedi'i leoli yn Kensington Court Clinic ac roedd y fynedfa i Bupa Dental Care ar ochr yr adeilad. Roedd holl ardaloedd y cleifion a'r staff wedi'u lleoli ar un llawr, er bod angen dringo nifer fach o risiau er mwyn cyrraedd yr ystafell aros, y toiledau a rhai o'r deintyddfeydd. Dywedodd y staff wrthym fod ramp ar gael (manylir ar hyn yn y daflen wybodaeth i gleifion hefyd) er mwyn galluogi unrhyw un sy'n defnyddio cadair wthio a/neu gymorth symudedd i ddefnyddio'r cyfleusterau i gyd. Argymhellwyd gennym y dylai'r practis ystyried darparu mynediad hawdd a pharhaol i'r ystafell aros a'r toiledau i'r rhai nad ydynt yn gallu dringo'r grisiau. Byddai hyn yn rhoi'r rhyddid i'r cleifion ddefnyddio'r ardaloedd hyn heb orfod gofyn i'r staff osod rampiau ar eu cyfer.

Gwelsom fod mynediad da i'r practis, gyda nifer gyfyngedig o leoedd parcio ar y safle. Roedd y brif fynedfa'n arwain at y dderbynfa, yr ardal aros a rhai o'r deintyddfeydd. Roedd gan y practis doiled a oedd yn addas i'r rhai sy'n defnyddio cymhorthion symudedd, ac roedd canllawiau wedi'u gosod i'w cynorthwyo os oedd angen. Roedd dwy ddeintyddfa ar gael a oedd yn addas i unrhyw glaf a oedd yn defnyddio cadair wthio/cymorth symudedd.

Er bod arwyddion priodol ar ddrysau'r toiledau, nid oedd yr arwyddion o'r ystafell aros yn dangos yn glir i ba gyfeiriad yr oedd y toiledau. Argymhellwn y dylid adolygu'r arwyddion fel bod arwyddion clir i holl ardaloedd y cleifion.

Roedd gan y practis bolisiâu cyfredol ar y Ddeddf Cydraddoldeb a Chyfrinachedd. Hefyd, gwelsom fod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith yn y practis, sy'n dangos ei ymrwymiad i sicrhau bod pawb yn cael cynnig yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen adolygu'r holl arwyddion yn y practis er mwyn sicrhau eu bod yn glir a bod y cleifion yn gallu dod o hyd i'r cyfleusterau.

Mae angen adolygu'r mynediad i gleifion er mwyn gweld a ellid gosod ramp parhaol i'r ystafell aros a'r toiledau fel nad oes angen i gleifion ofyn am y rampiau.

Gwrando a dysgu o adborth

Gwelsom fod polisi a gweithdrefn gwyno ysgrifenedig ar waith yn y practis. Roedd gwybodaeth i gleifion am sut i fynegi pryder i'w gweld yn yr ardal aros ac yn y daflen wybodaeth i gleifion. Roedd poster Gweithio i Wella GIG Cymru⁴ i'w weld wrth y brif fynedfa.

Gwelsom ei bod hi'n anodd dod o hyd i wybodaeth am gwynion gan fod Bupa yn defnyddio'r term Cod Ymddygiad. Nid yw'r iaith hon yn hawdd ei deall ar gyfer proses gwyno. Er y cawsom eglurhad o ran y rheswm dros ddefnyddio'r term hwn, argymhellwyd gennym y dylid sicrhau bod yr iaith a ddefnyddir i gyfathrebu â chleifion yn hawdd ei deall ac yn cael ei hadlewyrchu'n glir yn yr holl lenyddiaeth gorfforaethol.

Gwelsom fod gan y practis systemau addas ar waith i gofnodi unrhyw bryderon/cwynion a wnaed, ac ymateb iddynt a'u monitro. Hefyd, roedd llyfr sylwadau ar gael ar ddiwedd desg y dderbynfa er mwyn i'r cleifion ei ddefnyddio. Mae'r staff yn adolygu ac yn monitro'r llyfr yn rheolaidd er mwyn monitro'r gwasanaeth a ddarperir. Gwelsom fod y llyfr sylwadau'n cynnwys nifer o sylwadau cadarnhaol am y gwasanaeth.

Roedd proses ar waith yn y practis ar gyfer casglu adborth gan y cleifion am y gwasanaethau a'r gofal a gawsant drwy holiaduron i gleifion, a oedd wedi'u gosod mewn ardaloedd gwahanol o'r practis. Roedd blwch ar gael wrth ddesg

⁴Gweithio i Wella' yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt a dysgu ohonynt. Mae pryderon yn cynnwys materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion, ac, mewn perthynas â chyrrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru

y dderbynfa er mwyn i'r cleifion bostio eu holiaduron wedi'u cwblhau. Gallai'r practis fod am ystyried gosod blwch ychwanegol yn yr ardal aros er mwyn i'r cleifion allu postio eu holiaduron yn ddiennw.

Gallai'r cleifion hefyd gwblhau ffurflenni adborth ar-lein. Caiff pob dull o gasglu adborth gan y cleifion ei adolygu'n rheolaidd, a chaiff y canlyniadau eu harddangos yn yr ardal aros. Awgrymwyd gennym y gallai'r practis fod am ystyried arddangos unrhyw wybodaeth am y gwelliannau a wnaed mewn ymateb i adborth y cleifion, yn ychwanegol at y canlyniadau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen adolygu'r iaith a ddefnyddir mewn gwybodaeth i gleifion er mwyn sicrhau bod y cleifion yn gallu ei deall yn hawdd. Dylid rhoi sylw penodol i'r term Cod Ymddygiad gan nad yw hwn yn hawdd ei ddeall fel proses gwyno.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg gyda'r bwriad o fodloni'r rheoliadau a'r safonau perthnasol sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Roedd y practis yn darparu amgylchedd a chyfleusterau glân a thaclus i'r staff ac ymwelwyr. Gwelsom dystiolaeth bod contractau cynnal a chadw amrywiol ar waith er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd a'r chyfleusterau'n ddiogel ac mewn cyflwr da.

Dangosodd y staff y broses ar gyfer glanhau a sterileiddio'r offer deintyddol, ac ystyriwyd ei bod yn foddhaol. Awgrymwyd gennym y dylai'r practis ystyried prynu cyfarpar ychwanegol er mwyn gwella'r broses ddihalogi. Byddai hyn yn golygu y byddai'r practis yn gallu dangos cydymffurfiaeth well â'r canllawiau arfer gorau.

Roedd cofnodion y cleifion a welsom yn fanwl ac yn cynnwys gwybodaeth lawn am y claf.

Gwelsom radiograffau o ansawdd da, ac roedd y rhain yn cael eu harchwilio'n rheolaidd er mwyn cynnal y safonau hyn.

Gofal diogel

Ni nodwyd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â sicrwydd yn ystod yr arolygiad hwn.

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis, a'r bobl sy'n ymweld ag ef.

Roedd y practis wedi'i leoli yn rhan o Kensington Court Clinic, gyda'r fynedfa i Bupa Dental Care ar ochr yr adeilad. Mae holl gyfleusterau Bupa Dental Care wedi'u lleoli ar un llawr, er bod angen dringo un neu ddau o risiau er mwyn

cyrraedd rhai o'r deintyddfeydd, yr ardal aros a'r toiledau; nodir ein harsylwadau ar y mater hwn yn gynt yn yr adroddiad.

Roedd gan y practis ardal dderbynfa fawr, a oedd yn cynnwys digon o weithfannau i'r staff. Gofynnwyd i'r practis adolygu'r drychau sydd wedi'u gosod y tu ôl i'r dderbynfa oherwydd gallem weld sgriniau'r cyfrifiaduron wedi'u hadlewyrchu arnynt wrth sefyll yn yr ardal hon. Roedd ystafell aros fawr wedi'i lleoli gyferbyn â'r dderbynfa, a oedd yn lân ac yn daclus.

Roedd pump deintyddfa yn y practis, ond dim ond pedair ohonynt a oedd yn cael eu defnyddio i drin cleifion. Roedd rhai ohonynt wedi cael eu diweddarau a'u moderneiddio. Roedd pob un ohonynt yn cynnwys y cyfarpar priodol. Dywedodd y staff wrthym fod rhagor o gynlluniau i adnewyddu'r practis, a fydd yn gwella'r cyfleusterau a welsom ymhellach.

Ar y cyfan, roedd yr adeilad yn ymddangos fel pe bai mewn cyflwr da, y tu mewn a'r tu allan. Fodd bynnag, roedd angen rhoi sylw i rai ardaloedd o'r practis, gan gynnwys ailbaentio'r waliau lle'r oedd marciau treulio a glanhau'r carpedi a oedd wedi'u staenio yn ardaloedd y staff, neu osod rhai newydd yn eu lle. Roedd pob ardal arall o'r practis yn lân, yn daclus ac yn rhydd o beryglon baglu.

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn "lân iawn".

Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn amryw leoliadau yn y practis, a gwelsom fod yr offer hwnnw wedi cael ei wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant cyfredol ar ddiogelwch tân. Roedd yr allanfeydd tân yn weladwy, ar wahân i un arwydd allanfa yn yr ardal aros a oedd wedi'i guddio y tu ôl i olau. Gofynnwyd i'r staff fynd i'r afael â hyn ar frys. Roedd poster lechyd a Diogelwch yn cael ei arddangos yn y practis.

Roedd amryw bolisiâu a gweithdrefnau ar waith yn y practis, yn ogystal ag asesiadau risg, a oedd yn gyfredol ar gyfer sicrhau bod y safle'n addas i'r diben.

Roedd polisi dadebru ar waith yn y practis, ac roedd pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ddadebru cardio-anadlol/dadebru brys. Argymhellwyd gennym y dylid diweddarau'r polisi er mwyn adlewyrchu gweithdrefnau lleol pe bai argyfwng, fel bod pob aelod o'r staff yn deall ei rôl. Roedd gan y practis ddau swyddog cymorth cyntaf penodedig.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen diweddarau'r polisi dadebru er mwyn adlewyrchu gweithdrefnau lleol pe bai argyfwng, fel bod pob aelod o'r staff yn deall ei rôl a'i gyfrifoldebau.

Mae angen adolygu'r mynediad i gleifion er mwyn gweld a ellid gosod ramp parhaol i'r ystafell aros a'r toiledau fel nad oes angen i gleifion ofyn am y rampiau.

Mae angen adolygu'r drych y tu ôl i ardal y dderbynfa er mwyn sicrhau na all neb sy'n sefyll wrth ddesg y dderbynfa weld gwybodaeth ar sgriniau'r cyfrifiaduron

Mae angen cadarnhad bod yr arwydd allanfa argyfwng sydd wedi'i guddio y tu ôl i olau yn yr ystafell aros wedi cael ei symud ac y gellir ei weld yn glir.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau pwrpasol i lanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05⁵. Roedd yr ystafell yn lân ac yn daclus, a gwelsom dystiolaeth bod mesurau atal a rheoli heintiau priodol ar waith. Roedd arwydd anghywir ar ddrws yr ystafell ddihalogi a oedd y dweud mai ystafell pelydr-X ydoedd, a gofynnwyd i'r staff newid hyn.

Gwelsom dystiolaeth bod y cofnodlyfrau ar gyfer archwilio'r offer sterileiddio ar ddechrau a diwedd y dydd yn cael eu cadw a bod polisi rheoli heintiau ar waith. Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff, ac roeddent yn ei ddefnyddio wrth weithio yn yr ardaloedd dihalogi.

⁵ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol

Roedd y practis yn glanhau'r offerynnau deintyddol â llaw, ac awgrymwyd gennym y dylid ystyried defnyddio peiriant glanhau uwchsain⁶ neu beiriant golchi a diheintio⁷, yn unol â phraxisau Bupa eraill a chanllawiau ar ddihalogi, er mwyn helpu i wella'r broses ddihalogi.

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliad rheoli heintiau wedi cael ei gynnal yn 2018 gan ddefnyddio adnoddau archwilio cydnabyddedig, gan gynnwys adnodd archwilio Deoniaeth Cymru sy'n cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 2018-05. Cydnabuwyd bod hyn yn arfer da am fod yr archwiliad yn gynhwysfawr.

Nodwyd gennym fod dyfeisiau miniog mwy diogel⁸ ar gael ac yn cael eu defnyddio yn y practis. Fodd bynnag, roedd rhai nodwyddau confensiynol yn dal i gael eu defnyddio ac nid oedd unrhyw ddyfeisiau ailorchuddio⁹ ar gael. Er mwyn cydymffurfio â rheoliadau a chanllawiau Iechyd a Diogelwch, rhaid i'r practis adolygu ei ddefnydd o nodwyddau confensiynol heb ddyfais ailorchuddio a, lle y bo'n berthnasol, roi dewisiadau amgen ar waith.

Roedd contract ar waith i drosglwyddo a gwaredu gwastraff (clinigol) peryglus a gynhyrchir gan y practis yn ddiogel. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n briodol mewn biniau diogel y tu allan i'r practis. Roedd casgliadau gan y cyngor lleol ar waith i waredu gwastraff (cartref) nad yw'n beryglus.

⁶ Mae peiriant glanhau uwchsain yn dileu halogyddion o wrthrychau trwy eu rhoi mewn tanc o hylif sy'n llawn o donau sain amledd uchel.

⁷ Ystyrir mai peiriannau glanhau a diheintio awtomatig yw'r dull a ffefrir ar gyfer glanhau offerynnau a dyfeisiau meddygol. Mae peiriannau glanhau a diheintio yn defnyddio proses gylchred i lanhau ac yna ddiheintio offerynnau. Caiff y cylchredau eu rheoli'n llawn a'u hailadrodd, ac mae cofnod ohonynt fel arfer ar gael drwy argraffiad neu gerdyn cof.

⁸ Mae dyfeisiau miniog mwy diogel yn cynnwys rheolaethau peirianyddol ac yn atal anafiadau a achosir gan offer miniog.

⁹ Mae ailorchuddio yn golygu gosod gorchudd amddiffynnol â llaw dros nodwydd ar ôl ei defnyddio, ac mae'n dechneg a gysylltwyd ag anafiadau a achosir gan offer miniog yn y gorffennol.

Roedd polisi rheoli heintiau ar waith, a oedd yn cyfeirio at hylendid dwylo, trin a thrafod a gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel, trefniadau cadw tŷ a glanhau a hyfforddiant perthnasol.

Roedd gan y practis drefniadau priodol â'r gwasanaeth iechyd galwedigaethol lleol i ddelio ag unrhyw anafiadau a achosir gan offer miniog. Gwelsom gofnodion ynghylch statws imiwneiddio Hepatitis B pob aelod o staff clinigol a oedd yn gweithio yn y practis. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu hamddiffyn rhag y firws hwn a gludir yn y gwaed.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen adolygu'r broses ddihalogi, yn unol â chanllawiau a phracticisau deintyddol eraill Bupa, er mwyn pennu a fydd cyfarpar ychwanegol yn gwella'r prosesau glanhau â llaw a ddefnyddir yn y practis.

Mae angen tynnu'r arwydd pelydr-X oddi ar ddrws yr ystafell ddihalogi ac ychwanegu arwydd newydd â'r enw newydd

Rhaid i'r practis sicrhau bod dyfeisiau ailorchuddio ar gael i'w defnyddio gyda'r holl nodwyddau confensiynol neu sicrhau bod dyfeisiau miniog mwy diogel yn cael eu defnyddio

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis gyffuriau argyfwng ac offer dadebru brys priodol, fel yr argymhellir yng nghanllawiau Cyngor Dadebru y DU¹⁰. Roedd y rhain i gyd ar gael i'w defnyddio mewn argyfwng, er enghraifft, claf yn llewygu, ac roedd modd cael gafael arnynt yn hawdd. Roedd y cyffuriau a'r offer yn cael eu harchwilio'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn ddiogel i'w defnyddio. Fodd bynnag, awgrymwyd gennym y dylid adolygu lleoliad y cyfarpar a'r cyffuriau er mwyn sicrhau na all y cleifion gael gafael arnynt os na fydd yr un aelod o'r staff yn bresennol yn ardal y dderbynfa.

¹⁰ <https://www.resus.org.uk/quality-standards/primary-dental-care-quality-standards-for-cpr/>

Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant yn ystod y 12 mis diwethaf ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i ymgymryd â thriniaeth dadebru cardiobwlmonaidd (CPR). Roedd gan y practis hefyd ddau swyddog cymorth cyntaf penodedig.

Roedd polisi ar waith yn y practis ar gyfer rheoli argyfyngau meddygol. Argymhellwyd gennym y dylid ei ddiweddarau i gynnwys rolau a chyfrifoldebau unigol yn ystod argyfwng.

Nid oedd y staff yn ymwybodol o'r weithdrefn ar gyfer rhoi gwybod am adweithiau niweidiol i gyffuriau; argymhellwyd gennym y dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn gwybod sut i roi gwybod am unrhyw adweithiau niweidiol i feddyginiaethau neu ddyfeisiau meddygol drwy Gynllun Cerdyn Melyn MHRA¹¹.

Roedd padiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel ac roedd silindr ocsigen sbâr ar gael yn y practis.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r polisi ar gyfer rheoli argyfyngau meddygol gael ei ddiweddarau i gynnwys rolau a chyfrifoldebau unigol y practis yn ystod argyfwng sy'n ymwneud â chlaf.

Dylai rheolwr y practis godi ymwybyddiaeth pob aelod o'r staff o'r angen i roi gwybod am unrhyw adweithiau niweidiol i feddyginiaethau neu ddyfeisiau meddygol drwy Gynllun Cerdyn Melyn MHRA

Mae angen adolygu lleoliad cyffuriau a chyfarpar brys er mwyn sicrhau na all cleifion gael gafael arnynt os na fydd yr un aelod o'r staff yn bresennol

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau i hybu ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg. Roedd polisi diogelu ar waith i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd siart

¹¹ <https://yellowcard.mhra.gov.uk/the-yellow-card-scheme/>

llyf ar gael a oedd yn nodi pwy y dylid cysylltu ag ef a'r camau y dylai'r staff eu cymryd pe bai mater diogelu yn codi.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu oedolion a phlant. Roedd y practis wedi penodi aelod o'r staff yn arweinydd materion diogelu, sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff y polisi diogelu ei ddilyn ac a all roi rhywfaint o arweiniad ar faterion diogelu.

Cadarnhaodd y staff y cawsom sgwrs â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn gallu codi unrhyw bryderon sy'n gysylltiedig â gwaith gyda'r prif ddeintydd a/neu reolwr y practis a'u bod yn hyderus y byddai'n ymateb i'r pryderon hynny.

Dywedodd y staff wrthym am y gwiriadau cyn cyflogi a fyddai'n cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau newydd o'r staff cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd hyn yn cynnwys gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd¹² (DBS). Cadarnhaodd y staff y byddai gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pob aelod o'r staff yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd, a nodwyd gennym fod hyn yn arfer da.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Cawsom olwg ar y cyfleusterau clinigol yn y deintyddfeydd a gwelsom eu bod yn cynnwys cyfarpar perthnasol i sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff, a bod y cyfarpar hwn mewn cyflwr da ac yn cael ei wasanaethu'n llawn. Hefyd, roedd y deintyddfeydd yn drefnus ac yn daclus hefyd, ond gwelsom rai agweddau yr oedd angen eu gwella.

Gwelsom fod modd golchi'r llawr yn y deintyddfeydd. Fodd bynnag, nid oedd y llawr wedi'i selio wrth y waliau. Mae hyn yn golygu y gallai'r bwlch rhwng y llawr a'r byrddau sgyrtin beri risg o groes-heintio. Yn unol ag WHTM 01-05 (adrannau 6.46 - 6.50), argymhellir y dylai'r holl arwynebau fod yn rhai anhydraidd ac yn hawdd eu glanhau. Dylai gorchuddion y lloriau bod yn barhaus, heb uniadau. Felly, argymhellwn y dylai'r practis adolygu'r lloriau ym mhob ardal glinigol yn unol â'r canllawiau cyfredol ar reoli heintiau er mwyn sicrhau bod yr amgylcheddau clinigol yn lân ac yn ddiogel.

¹² Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant. Mae'n cymryd lle'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

Roedd yr holl offer radiograffeg mewn cyflwr da. Gwelsom dystiolaeth bod trefniadau addas ar waith i ddefnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel.

Gwelsom dystysgrifau hyfforddiant yn dangos bod pob un o'r deintyddion wedi cael yr hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio diweddaraf a'u bod yn bodloni'r canllawiau a nodir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) (IR(ME)R) 2017.

Roedd polisi diogelu rhag ymbelydredd ar waith yn y practis. Fodd bynnag, argymhellwn y dylid diweddarau'r polisi hwn i gynnwys ardaloedd a reolir ar gyfer pob deintyddfa.

Gwelsom fod archwiliadau o ansawdd delweddau pelydr-X wedi'u cwblhau'n fel rhan o'r gweithgareddau monitro sicrwydd ansawdd. Mae'r archwiliadau hyn yn nodi problemau posibl wrth dynnu lluniau pelydr-X ac yn nodi lle y dylid gwneud gwelliannau, os oes angen.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis adolygu'r lloriau ym mhob ardal glinigol yn unol â'r canllawiau ar reoli heintiau er mwyn sicrhau bod yr amgylcheddau clinigol yn lân ac yn ddiogel.

Dylid diweddarau'r polisi diogelu rhag ymbelydredd i gynnwys ardaloedd a reolir.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gallem weld bod archwiliadau wedi cael eu cwblhau a bod rhai eraill wedi'u trefnu. Roedd y rhain yn cynnwys: rhagnodi gwrthfotigau, cofnodion clinigol, croes-heintio, defnyddio pelydr-X a phecynnau argyfwng. Yn ogystal, dywedwyd wrthym a gwelsom dystiolaeth bod tîm effeithiolrwydd clinigol corfforaethol Bupa yn cynnal archwiliadau o bell o gofnodion cleifion.

Mae pob aelod o'r staff yn gallu defnyddio mewnrwyd gorfforaethol Bupa Dental sy'n dangos y canllawiau diweddaraf, gan gynnwys canllawiau diweddaraf y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE), unrhyw rybuddion iechyd, a mentrau a datblygiadau a gallant adolygu sesiynau astudio, cyrsiau a chynadleddau niferus.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Mae gan y practis raglen o archwiliadau mewnol a gynhelir er mwyn dangos arfer gorau wrth ddarparu gofal deintyddol. Dywedodd y staff wrthym fod adolygiadau gan gymheiriaid yn cael eu cynnal rhwng y timau clinigol, yn enwedig ar gyfer cofnodion clinigol. Bydd hyn yn cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a roddir i'r cleifion.

Nid yw'r practis yn gwneud unrhyw waith ymchwil.

Efallai yr hoffai'r practis ystyried defnyddio adnodd datblygu practisau Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth gan Ddeoniaeth Cymru¹³. Mae'r 'Adnodd Matrics Aeddfedrwydd' yn adnodd datblygu practisau deintyddol sy'n annog y tîm i ganolbwyntio ar arfer gorau a gofynion deddfwriaethol ac ar sut maent yn gweithio.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n briodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Er enghraifft, roedd copïau wrth gefn o'r holl ffeiliau electronig yn cael eu gwneud yn rheolaidd.

Roedd nifer o bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith yn y practis, gan gynnwys polisi diogelu data. Roedd hyn yn golygu fod y staff yn gallu cael gafael ar ganllawiau addas ar gyfer eu gwaith o ddydd i ddydd.

Cadw cofnodion

Roedd tystiolaeth bod y practis yn cadw cofnodion clinigol o ansawdd uchel. Roedd hyn yn dangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu i safon uchel, gan gynnwys diogelwch a llesiant deintyddol y cleifion.

Gwelsom fod y cofnodion yn cynnwys digon o wybodaeth am drafodaethau a gynhaliwyd ynghylch opsiynau triniaeth, costau, risgiau, buddiannau a sut y gofynnwyd am gydsyniad cleifion. Roedd tystiolaeth hefyd fod triniaeth yn cael ei chynllunio a bod y cleifion yn cael cynlluniau triniaeth i'w hystyried.

O blith y cofnodion a welsom, nodwyd gennym fod y profion pelydr-X yn amserol ac o ansawdd da. Roedd y rhesymau dros gynnal profion pelydr-X a,

¹³ <https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/maturity-matrix-dentistry>

Ile y bo'n berthnasol, y rhesymau dros beidio â'u cynnal, wedi'u dogfennu'n glir yn y nodiadau.

Roedd y nodiadau'n cael eu storio'n briodol ac roedd y cofnodion yn glir, yn ddarllenadwy ac o ansawdd da.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd rheolwr y practis yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, a gwelsom fod ganddo gydberthnasau da â phob aelod o'r staff a bod y llinellau atebolrwydd yn glir.

Roedd tystiolaeth bod hwn yn bractis deintyddol sy'n canolbwyntio ar y cleifion.

Gwelsom fod amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n anelu at sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n flynyddol, neu yn ôl yr angen, er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol.

Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, a'u bod yn cydweithio'n dda. Gwelsom fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn sawl maes.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae'r practis yn eiddo i Bupa Dental Care (Oasis Dental Care gynt) a chaiff ei reoli gan reolwr practis a gefnogir gan dîm ehangach o staff clinigol ac anghlinigol. Gwelsom fod gan y practis linellau atebolrwydd clir a dywedodd y staff wrthym eu bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Dywedodd pob un o'r staff wrthym eu bod yn cydweithio'n dda ac roedd y gydberthynas dda rhyngddynt â'r ffordd roeddent yn rhyngweithio â'r cleifion yn dystiolaeth o hyn. Roedd y staff yn ymwybodol o'r polisi chwythu'r chwiban ac yn hyderus i godi unrhyw broblemau neu bryderon am ofal y cleifion, naill ai'n uniongyrchol gyda'r deintydd, neu gyda chorff amgen priodol, lle bo angen.

Roedd yr holl staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion ac ategwyd hyn gan ystod o bolisïau a gweithdrefnau.

Gwelsom fod y staff wedi llofnodi ffurflen i ddangos eu bod wedi darllen y polisïau a'r gweithdrefnau, a'u bod yn eu deall. Dywedodd y staff wrthym fod yr holl bolisïau'n cael eu hadolygu'n flynyddol, neu yn ôl yr angen.

Roedd dyddiadau adolygu a chyhoeddi wedi'u nodi ar bob polisi. Fodd bynnag, roedd dyddiadau adolygu rhai ohonynt wedi mynd heibio. Dywedwyd wrthym fod y rhai yn cael eu diweddarau ac y byddent yn cael eu cyhoeddi i'r practis cyn gynted ag y byddent yn barod.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemniad priodol ar waith ar ei gyfer. Roedd gan y practis hefyd dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gyfredol.

Er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, atgoffwyd yr unigolyn cyfrifol am ei gyfrifoldeb i gynnal ymweliadau yn unol â rheoliad 23 ac i baratoi adroddiad ysgrifenedig ar ymddygiad y practis deintyddol mewn perthynas ag ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd nifer o bolisïau yn ymwneud ag adnoddau dynol ar waith yn y practis. Roedd y rhain yn cynnwys y polisi recriwtio staff, y polisi cyfle cyfartal a'r polisi chwythu'r chwiban.

Gwelsom y rhaglen sefydlu sydd ar waith ar gyfer pob aelod newydd o staff, ac roedd tystiolaeth o hyn yn ffeiliau'r aelodau newydd o staff a welsom. Roedd ffeiliau'r staff yn cynnwys gwybodaeth cyn cyflogi a oedd yn cynnwys contract a swydd-ddisgrifiadau.

Mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff gael tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn dechrau ei swydd, a gwelsom dystiolaeth o'r rhain ar gyfer y grŵp o staff. Mae'r practis hefyd yn adnewyddu'r tystysgrifau hyn bob tair blynedd. Mae'r practis hwn yn helpu i sicrhau dewisiadau recriwtio mwy diogel, gan gynnwys gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, er enghraifft plant.

Roedd system arfarnu ar waith yn y practis ac roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi cael arfarniad. Fodd bynnag, nid oedd rhai o'r staff clinigol wedi cael arfarniad.

Gwelsom rai tystysgrifau ar gyfer staff a oedd yn dangos eu bod wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac yn bodloni'r gofynion o ran datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

Dyweddodd y staff wrthym fod y practis yn cynnal cyfarfodydd tîm ffurfiol bob mis. Gwelsom dempled o agenda cyfarfod yn ystod yr ymweliad, a oedd yn cynnwys nifer o bynciau a drafodir ym mhob cyfarfod. Caiff cofnodion cyfarfodydd eu cadw yn ardal y staff i unrhyw un nad yw'n gallu bod yn bresennol mewn cyfarfod. Gofynnir i'r staff ddarllen a llofnodi'r cofnodion er mwyn cadarnhau eu bod yn ymwybodol o faterion diweddaraf y practis. Yn anffodus, ni fu modd i ni weld cynnwys cofnodion y cyfarfodydd tîm o ganlyniad i broblemau o ran mynediad i'r system electronig.

Mae'n ofynnol i'r staff clinigol gael eu himiwneiddio rhag Hepatitis B er mwyn eu hamddiffyn nhw eu hunain a'r cleifion rhag yr haint. Darparodd y practis dystiolaeth o imiwneidd ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol. Gwelsom fod pigiad atgyfnerthu wedi'i argymhell ar gyfer un aelod o'r staff, ond nid oedd yn glir pa un a oedd wedi ei gael ai peidio. Felly, gofynnwyd i'r practis roi diweddariad am y mater hwn, er mwyn sicrhau bod gan yr aelod o'r staff yr imiwneidd priodol sy'n ofynnol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i reolwr y practis gadarnhau bod yr aelod o'r staff y mae angen pigiad atgyfnerthu Hepatitis B arno wedi cael y pigiad hwnnw, a bod dystiolaeth o hynny yn ffeil yr aelod o'r staff.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rhoddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os byddwn yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i ganfyddiadau arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Amlygiad Meddygol\) 2000](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Bupa Dental Care

Dyddiad arolygu: 15 Ionawr 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghlŷn â diffyg cydymffurfio sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion brys yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Bupa Dental Care

Dyddiad arolygu: 15 Ionawr 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym pa gamau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r wybodaeth mewn perthynas ag oriau agor y practis ac enwau'r deintyddion er mwyn sicrhau eu bod yn glir i'r cleifion	Safonau Iechyd a Gofal 3.2	Cynlluniau adnewyddu – dyfynbrisiau ar gyfer y gwaith i'w cymeradwyo gan AM a'r adran Ystadau. Arwyddion ar ddrysau'r deintyddfeydd a'r tu mewn i'r practis wrth y fynedfa. (Cyflenwr arwyddion newydd) Yn aros am amserlen.	Emmeline Roden	Mai 2019 (Mae'r amserlen ar gyfer cael dyfynbrisiau a chwblhau'r gwaith wedi'i chynnwys yn y cynlluniau adnewyddu)
Mae angen diweddarau manylion y rheolwr cofrestredig yn y datganiad o ddiben, ac anfon	Rheoliadau Deintyddiaeth	Datganiad o ddiben – Cwblhawyd – caiff ei anfon drwy neges e-bost ynghyd â'r	Emmeline Roden	Ar ôl dychwelyd y

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
copi i AGIC	Breifaf (Cymru) 2017 – Rheoliad 5 (1) (2)	cynllun gwella.		cynllun gwella wedi'i gwblhau. Erbyn 25/2/19 fan bellaf
Mae angen adolygu'r holl arwyddion yn y practis er mwyn sicrhau eu bod yn glir a bod y cleifion yn gallu dod o hyd i'r cyfleusterau.	Safonau lechyd a Gofal 3.2 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifaf (Cymru) 2017 – 13 (1) (a)(b)	Adolygwyd yr holl arwyddion ac mae'r practis yn aros i arwyddion newydd gyrraedd a chael eu gosod. (Cyflenwr arwyddion newydd) Cyfarfod â'r landlordiaid i drafod yr arwyddion ar y tu allan i'r adeilad, gan ei fod yn adeilad aml-ddeiliadaeth. Cyfarfod ar 12/2/2019. Cymeradwywyd arwydd i'w osod ar y tu allan i'r adeilad. Mae hyn hefyd wedi'i gynnwys yn y cynlluniau adnewyddu.	Emmeline Roden	Mai 2019 (Mae'r amserlen ar gyfer cael dyfynbrisiau a chwblhau'r gwaith wedi'i chynnwys yn y cynlluniau adnewyddu)
Mae angen adolygu'r iaith a ddefnyddir mewn gwybodaeth i gleifion er mwyn sicrhau bod y cleifion yn gallu ei deall yn hawdd. Dylid rhoi sylw penodol i'r term Cod Ymddygiad gan nad	Safonau lechyd a Gofal 1.1; 3.2; 4.2 Rheoliadau	Rwyf wedi trosglwyddo'r wybodaeth hon i'r tîm cyswllt cleifion/marchnata yn y brif swyddfa.	Y tîm Cyswllt Cleifion/Marchnat a yn y Brif Swyddfa.	

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
yw hwn yn hawdd ei ddeall fel proses gwyno.	Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 13 (1) (a)			
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Mae angen diweddarau'r polisi dadebru er mwyn adlewyrchu gweithdrefnau lleol pe bai argyfwng, fel bod pob aelod o'r staff yn deall ei rôl a'i gyfrifoldebau.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 31 (2)(b)	Diweddarau'r polisi rolau a chyfrifoldebau.	Emmeline Roden	Cwblhawyd. Mae'r polisi'n cael ei arddangos
Mae angen adolygu'r mynediad i gleifion er mwyn gweld a ellid gosod ramp parhaol i'r ystafell aros a'r toiledau fel nad oes angen i gleifion ofyn am y rampiau.	Safonau Iechyd a Gofal 2.1 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 22 (2)(c)	Cynlluniau adnewyddu - mae gwaith yn mynd rhagddo i gael dyfynbrisiau a chwblhau asesiadau mewn perthynas â gosod rampiau parhaus.		Mai 2019 (Mae'r amserlen ar gyfer cael dyfynbrisiau a chwblhau'r gwaith wedi'i chynnwys yn y cynlluniau adnewyddu)

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae angen adolygu'r drych y tu ôl i ardal y dderbynfa er mwyn sicrhau na all neb sy'n sefyll wrth ddesg y dderbynfa weld gwybodaeth ar sgriniau'r cyfrifiaduron	Safonau lechyd a Gofal 4.1 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 22 (2)(a)	Cynlluniau adnewyddu - yn aros am ddyfynbrisiau ac i'r cynlluniau gael eu cymeradwyo. Os caiff desg y dderbynfa ei symud a'i ailosod, caiff y drychau eu tynnu oddi yno. Fel arall, caiff y drychau eu gorchuddio. Cael dyfynbrisiau ar gyfer gorchuddio'r drychau.		Mai 2019 (Mae'r amserlen ar gyfer cael dyfynbrisiau a chwblhau'r gwaith wedi'i chynnwys yn y cynlluniau adnewyddu)
Mae angen cadarnhad bod yr arwydd allanfa argyfwng sydd wedi'i guddio gan olau yn yr ystafell aros wedi cael ei symud, ac y gellir ei weld yn glir.	Safonau lechyd a Gofal 2.1 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 22 (2)(a)	Caiff ei dynnu yn ystod y gwaith adnewyddu a'i osod y tu ôl i olau'r allanfa argyfwng.		Mai 2019 (Mae'r amserlen ar gyfer cael dyfynbrisiau a chwblhau'r gwaith wedi'i chynnwys yn y cynlluniau adnewyddu)
Mae angen adolygu lleoliad cyffuriau a chyfarpar brys er mwyn sicrhau na all cleifion gael gafael arnynt os na fydd yr un aelod o'r staff yn	Safonau lechyd a Gofal 2.1	Cynlluniau adnewyddu – caniatâd gan y landlordiaid i osod drws i mewn i'r ardal lle caiff y cyffuriau brys eu cadw, y bydd		Mai 2019 (Mae'r amserlen ar

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
bresennol	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 22 (2)(a)	angen cod i'w agor.		gyfer cael dyfynbrisiau a chwblhau'r gwaith wedi'i chynnwys yn y cynlluniau adnewyddu)
Mae angen adolygu'r broses ddihalogi, yn unol â chanllawiau a phractisau deintyddol eraill Bupa, er mwyn pennu a fydd cyfarpar ychwanegol yn gwella'r prosesau glanhau â llaw a ddefnyddir yn y practis.	Safonau lechyd a Gofal 2.4 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 13 (2)(a)(b)	Yng ngoleuni'r broses ddihalogi ac er mwyn bodloni argymhellion, nid gofynion, bydd y practis yn gosod peiriant glanhau uwchsain i'w ddefnyddio. Caiff y peiriant hwn ei brofi a'i wasanaethu yn ôl y gofyn er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r canllawiau.	Emmeline Roden	Ebrill 2019
Mae angen tynnu'r arwydd pelydr-X oddi ar ddrws yr ystafell ddihalogi ac ychwanegu arwydd newydd â'r enw newydd	Safonau lechyd a Gofal 2.1	Fel uchod – yn aros am amserlen gan y cyflenwr arwyddion.	Emmeline Roden	Mai 2019 (Mae'r amserlen ar gyfer cael dyfynbrisiau a chwblhau'r

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
				gwaith wedi'i chynnwys yn y cynlluniau adnewyddu)
Rhaid i'r practis sicrhau bod dyfeisiau ailorchuddio ar gael i'w defnyddio gyda'r holl nodwyddau confensiynol neu sicrhau bod dyfeisiau miniog mwy diogel yn cael eu defnyddio	Safonau lechyd a Gofal 2.9 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 13 (2)(a)(b); 22 (1) (c)	Defnyddio chwistrellau diogel iawn ym mhob deintyddfa.		Cwblhawyd
Rhaid i'r polisi ar gyfer rheoli argyfyngau meddygol gael ei ddiweddarau i gynnwys rolau a chyfrifoldebau unigol y practis yn ystod argyfwng sy'n ymwneud â chlaf.	Safonau lechyd a Gofal 2.6 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 31	Diweddarau'r polisi rolau a chyfrifoldebau.	Emmeline Roden	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	(2)(b)			
Dylai rheolwr y practis godi ymwybyddiaeth pob aelod o'r staff o'r angen i roi gwybod am unrhyw adweithiau niweidiol i feddyginiaethau neu ddyfeisiau meddygol drwy Gynllun Cerdyn Melyn MHRA.	Safonau lechyd a Gofal 2.6	Darparu diweddariadau rheolaidd a hyfforddiant codi ymwybyddiaeth drwy fewnwyd y practis – lechyd a Diogelwch. Diweddariadau rheolaidd mewn cyfarfodydd staff.	Emmeline Roden	Ar waith – Caiff ei nodi yng nghofnodion y cyfarfod staff nesaf, dyddiedig 27 Chwefror
Rhaid i'r practis adolygu'r lloriau ym mhob ardal glinigol yn unol â'r canllawiau ar reoli heintiau er mwyn sicrhau bod yr amgylcheddau clinigol yn lân ac yn ddiogel.	Safonau lechyd a Gofal 2.9 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 22 (2)(a)	Cynlluniau adnewyddu	Emmeline Roden	Mai 2019 (Mae'r amserlen ar gyfer cael dyfynbrisiau a chwblhau'r gwaith wedi'i chynnwys yn y cynlluniau adnewyddu)
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Rhaid i reolwr y practis gadarnhau bod yr aelod o'r staff y mae angen pigiad atgyfnerthu	Safonau lechyd a Gofal	Bydd yr aelod o'r staff – Hylenydd – yn	Emmeline Roden	Mawrth 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Hepatitis B arno wedi cael y pigiad hwnnw, a bod tystiolaeth o hynny yn ffeil yr aelod o'r staff.	7.1 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 17(1)(a) & 13 (6) (c)(ii)	cael pigiad atgyfnerthu ym mis Mawrth.		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Emmeline Roden

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 21 Chwefror 2019